

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

Tannau Taf

Mae gan gyfansoddwr y triawd llinynnol yma nifer fawr o syniadau. Mae hefyd llawer o siapiau melodig a rhythmig sy'n apelio at glust y gwrandawr.

Yr her nawr i *Tannau Taf* yw i greu cerddoriaeth lle mae'r iaith a'r harmoni (a does dim ots pa mor gyfoes yw'r rhain) yn dweud rhywbeth wrthon ni – hynny yw, bod neges o rhyw fath yn cael ei chyfleu.

Mae digon o gyferbyniaeth i'w gael rhwng gwahanol adrannau'r triawd yma, gyda *tempi* a chyweiriau amrywiol. Ond, yn ei ffurf bresennol, dwi'n ei chael hi'n anodd i glywed datblygiad cerddorol.

Cofiwch bwysigrwydd ysgrifennu rhannau synhwyrol – peidiwch â chael eich temptio i ddibynnu ar feddalwedd gyfrifiadurol i 'greu' rhannau i chi. Maent yn lletchwith (ac weithiau yn amhosib) i'w perfformio.

Daliwch ati!